dyddiadau i'r dyddiadur

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r cylchlythyr hwn, a'i fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'ch busnes. Os ydych yn gwybod am rywun yn y busnes twristiaeth sydd heb dderbyn cylchlythyr, dywedwch wrthynt am gysylltu â ni er mwyn i ni eu hychwanegu at ein rhestr bostio ac anfon cylchlythyr atynt.

Os oes gennych unrhyw syniadau am gynnwys y cylchlythyr a fyddai o fudd i fusnesau, cysylltwch â ni. Byddem yn hynod falch o glywed eich barn. Os oes gennych gyfeiriad e-bost, byddem yn gwerthfawrogi petaech yn ei anfon atom. Mae hyn yn ein galluogi i gysylltu â chi'n gyflym ac mae'n arbed ein biliau post! Y nod yw cynhyrchu dau gylchlythyr bob blwyddyn.

Gwyl Fŵyd Y Fenni

Cysylltiadau

Richard Tyler
Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620405
Ebost richard.tyler@breconbeacons.org

Carol Williams
Swyddog Ardal Twf Twristiaeth
01874 620478
Ebost carol.williams@breconbeacons.org

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu,
Powys LD3 7HP



- 20-21 Medi **Gŵyl Fwyd Y Fenni**
Blasu bwyd, arddangosiadau a mwy. 01873 851643

- 23 Medi **Diwrnod Arddangos Cyswllt Bwyd Powys ym Mhontsenni**
Bydd Nick Davies o Hyfforddiant Cambrian yn dangos prydau sy'n cynnwys cig.
Diwrnod ardderchog i ddod i wylio, blasu a chael syniadau newydd.
Bydd yr un gweithdy yn cael ei gynnal hefyd yn Ystradgynlais a Chrug Hywel. 01982 551857

- 23 Medi **Gweithdy VisitWales** **Bwrdd Croeso Cymru**
Diwrnod lle dangosir i chi sut i greu a golygu gwybodaeth am eich busnes ar-lein.
Erbyn diwedd y dydd bydd eich manylion a'ch cynnyrch yn barod i'w cyhoeddi ar-lein.
Arf hyrwyddo gwerthfawr. 10am-4.30pm Hyfforddiant Powys, Aberhonddu. 02920 475338

- 25 Medi **Gweithy Cynllunio Mewnol i fusnesau Aberhonddu a'r Cylch**
Changing Rooms yn dod i Aberhonddu! Cewch lu o syniadau newydd.
01874 636238 **Prosiect Anticipation MWT a Brecon Action**

- 4 Hydref **Gŵyl Fwyd Bannau Brycheiniog**
55 cwmni bwyd o Gymru, Tîm Coginio Olympaidd Cymru, Côr Meibion Aberhonddu, Roy Noble a Derek Brockway. A CHI! Neuadd y Farchnad, Aberhonddu. 9am-5pm. 01874 624979

- 16 Hydref **Gweithdy VisitWales** **Bwrdd Croeso Cymru**
Gweler 23 Medi am fanylion. 10am-4.30pm, Coleg Merthyr Tudful. 02920 475338

- 17 Hydref **Lansiad Ardal Twf Twristiaeth, Aberhonddu**
Cyfle i fusnesau twristiaeth ddysgu mwy am y gronfa gyfalaf sydd wedi ei chlustnodi'n arbennig ar gyfer busnesau twristiaeth Bannau Brycheiniog. 11am. 01874 620478

- 21 Hydref **Ymweliad Cyfarwyddo i Fusnesau Aberhonddu**
Cyfle gwych i weld Canolfan Aur Cymru Tregaron ac Aberaeron.
Cyfle i weld sut mae trefi eraill yn hyrwyddo eu hunain a gwneud y gorau o'r atyniadau i ymwelwyr.
01874 636238 **Bwrdd Croeso Cymru**

- 21 Hydref **Diwrnod Arddangos Cyswllt Bwyd Powys**
Gweler 23 Medi. Ystradgynlais. 01982 551857

- 13 Tachwedd **Cwrs Cynllun Croeso, Aberhonddu**
Clasur gyda Thwristiaeth Gweithgareddau. Diwrnod i wella eich gwybodaeth am yr ardal leol ac i wella'ch sgiliau cyfathrebu a gwasanaethau i gwsmeriaid. 01437 767768

- 18 Tachwedd **Diwrnod Arddangos Cyswllt Bwyd Powys**
Gweler 23 Medi. Crug Hywel. 01982 551857

- 20 Tachwedd **Cynllun Croeso – Gwasanaeth i bawb, Aberhonddu**
Cwrs hanner diwrnod i fusnesau twristiaeth ar sut i ddelio â chwsmeriaid ag anghenion arbennig.
Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys goblygiadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. 01437 767768

- 21 Tachwedd **Gweithdy Addurno Ffenestri i Fusnesau Aberhonddu a'r Cylch**
Cyfle i dreulio'r dydd yn edrych ar gyflwyniad, themâu, lefelau a mwy. Gwyliwch eich cefnau Selfridges!
01874 636238 **Prosiect Anticipation MWT a Brecon Action**

- 22 Tachwedd **Ffair Nadolig**
30 cwmni bwyd, 30 stondin celf a chrefft, digon o anrhegion anarferol felly cofiwch eich rhestr siopa Nadolig.
Bydd dros 5 o gorau gwahanol yno i gynnig blas ar hwyl yr ŵyl. Neuadd y Farchnad, Aberhonddu
10am-5pm. 01874 624979

- 25 Tachwedd **Cynllun Croeso - Rhyngwladol, Aberhonddu**
Cwrs hanner diwrnod sy'n darparu dealltwriaeth o'r hyn sy'n denu ymwelwyr tramor i Gymru a sut gall diwylliant a threftadaeth Cymru gyfrannu at eu profiad. 01437 767768

- 2 Rhagfyr **Deddfwriaeth Gyflogaeth i Fusnesau Aberhonddu a'r Cylch**
Gwybodaeth hanfodol am Gyfraith Cyflogaeth. 01874 636238 **Prosiect Anticipation MWT a Brecon Action**

- 28 Ionawr **Marchnata eich Busnes**
Gweithdy diwrnod i archwilio ffyrdd cost effeithiol o farchnata eich busnes. 01874 620478 **APCBB a MWTAP**

- 2 Mawrth **Sioe Deithiol Twristiaeth**
Mae Partneriaeth Twristiaeth – Canolbarth Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn trefnu diwrnod sydd â'r nod o annog busnesau twristiaeth i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn gwella ansawdd a gallu cystadleuol Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr. 02920 2047 5295

- 4 Mawrth **Diwrnod Gweithgarwch**
Beth am ddiwrnod ar feic? Teithiau beic a beicio mynydd wedi eu tywys, sy'n newydd yn nhymor 2004.
Diwrnod o hwyl yn edrych ar gyfleoedd newydd i feicwyr. 01874 620478 **APCBB a MWTAP**

Mae llawer o'r digwyddiadau hyn yn rhad ac am ddim, ond codir tâl am rai eraill.
Cysylltwch â'r trefnwyr yn uniongyrchol a chofiwch grybwyll mai yng

Nghylchlythyr Gweithredu Dros Dwristiaeth y cawsoch wybod am y digwyddiad!

cynllun gan touchdown 07973 711523 o ffotograffiaeth © bwrdd croeso cymru
wedi ei argraffu ar bapur wedi ei ailgylchu

gweithredu dros dwristiaeth

Twristiaeth gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

BRECON BEACONS NATIONAL PARK

Croeso!

Croeso i rifyn cyntaf Gweithredu dros Dwristiaeth ym Mannau Brycheiniog. Ar eich cyfer chi, fusnesau twristiaeth y Parc, y mae'r cylchlythyr hwn, a'i nod yw gwella'r cyfathrebu rhyngom. Gobeithio y medrwn weithio gyda'n gilydd yn llwyddiannus er budd y bobl leol, economi'r ardal ac i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gwneud rhai penderfyniadau pwysig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ynglŷn â thwristiaeth. Yn gyntaf, cyflogwyd Richard Tyler yn Swyddog Hamdden a Thwristiaeth Gynaliadwy yn Ionawr 2002, a sefydlwyd Partneriaeth Dwristiaeth Strategol Bannau Brycheiniog.

Flwyddyn yn ddiweddarach, cymeradwywyd Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy gan yr Awdurdod, a chytunodd i gyllido prosiect Ardal Twf Twristiaeth mewn partneriaeth â Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Sir Powys. Mae'r prosiect hwn bellach ar waith dan reolaeth Carol Williams, y Swyddog Prosiect, yn datblygu Twristiaeth Gweithgareddau yn yr ardal a chynorthwyo busnesau sy'n rhan o'r gwaith hwn. Rydym yn hynod falch o fod yn gysylltiedig â'r prosiect a'i grant o £0.5 miliwn gan y Bwrdd Croeso sydd wedi ei neilltuo ar gyfer yr ardal.

Dangosodd clwy'r traed a'r genau i ni pa mor bwysig yw twristiaeth i'r ardal brydferth hon. Gwelwn dwristiaeth fel dolen gyswllt allweddol rhwng gwaith presennol yr Awdurdod yn amddiffyn y dirwedd a chynorthwyo ymwelwyr, a'ch ymdrechion chi fasnachwyr i ddod ag arian i'r economi lleol. Edrychwn ymlaen at ddatblygu ein gwaith gyda chi.

Chris Gledhill
Prif Weithredwr

Twristiaeth Werdd yn Gwneud Arian!

Dewch i lansiad y Ddraig Werdd ar 5 Tachwedd.

Y Ddraig Werdd yw'r cynllun achredu newydd sy'n rhoi sicrwydd i ymwelwyr ynglŷn â'r ystyriaeth a roddir i'r amgylchedd lleol. Mae'n rhoi hygrededd i ddeunyddiau marchnata, eich cysylltu â chwsmeriaid newydd, cynnig syniadau newydd am sut i arbed arian a sicrhau eich bod yn gyfreithlon. Mae pymtheg o fusnesau lleol eisoes yn rhan o'r cynllun ac rydym yn ehangu'r cynllun i gynnwys pawb. Mae'r Awdurdod yn cydweithio â'r arbenigwyr amgylcheddol Rhwydwaith Arena er mwyn darparu cynllun sy'n syml ac yn effeithiol ac yn osgoi gwaith papur gormodol. Mae'n cynnwys 3 diwrnod o hyfforddiant a chyngor ar y safle am ddim. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn talu'r ffioedd asesu ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn chwilio am gyllid ar gyfer marchnata.

Mae twristiaid yn holi fwyfwy am ansawdd amgylcheddol y lleoedd maent yn aros ynddynt ac mae'r cynllun hwn yn rhoi iddynt y sicrwydd sydd ei angen. Bannau Brycheiniog yw'r Parc Cenedlaethol cyntaf yn y DU i goleddu'r syniad hwn.

Ardal Twf Twristiaeth

Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi enwi Bannau Brycheiniog yn Ardal Twf Twristiaeth, ac yn sgîl hyn mae £500,000 wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau cyfalaf. Mae'r gronfa i'w defnyddio gan ddarparwyr gweithgareddau a busnesau twristiaeth.

Felly pwy all wneud cais am y gronfa hon? **UNRHYW UN!**

- Darparwyr Gweithgareddau sy'n darparu neu a fydd yn darparu gweithgareddau Beicio, Marchogaeth, Cerdded neu Bysgota ac sydd am wella ansawdd neu gynyddu niferoedd.
- Darparwyr llety sydd am wella ansawdd neu uwchraddio er mwyn cyrraedd safon 3 seren neu uwch Bwrdd Croeso Cymru.
- Busnesau Arlwyo sy'n gwella ansawdd neu gynyddu niferoedd, yn enwedig os yw'n ymwneud â thwristiaeth gweithgareddau.

Costau sy'n gymwys yw: gwaith adeiladu, gosodion a ffitiadau, gwaith tirweddu, ffioedd proffesiynol, offer ac arwyddion.
Isafswm costau prosiectau cymwys yw £10,000, uchafswm cost £300,000.

Dim ond 15 ardal yng Nghymru sydd wedi eu nodi'n Ardaloedd Twf Twristiaeth. Gyda'r pwyslais ar Fannau Brycheiniog a'r gweithgareddau gwych sy'n denu twristiaid i wario'u hamser hamdden yma, tybed a allwn ni eu siomi ar yr ochr orau! Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu trefnu yn yr hydref i fusnesau sydd am ddysgu rhagor neu drafod unrhyw syniadau eraill.

Cynhelir y cyntaf o'r cyfarfodydd hyn ddydd Gwener 17 Hydref yn swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, am 11am.
Amgaewn wahoddiad yn y cylchlythyr hwn a gobeithiwn eich gweld yn un o'r cyfarfodydd.

Os ydych am drafod ymhellach unrhyw syniad sydd gennych ynglŷn â'ch busnes, ffoniwch Carol Williams ar 01874 620478.

Bwrdd Croeso Cymru - Seminar Marchogaeth

Dydd Mawrth 30 Medi

Gwahoddir pob un sy'n ymwneud â Marchogaeth a thwristiaeth i seminar undydd ar faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ddydd Mawrth 30 Medi 2003.

Bydd marchnata yn cael ei drafod a'i archwilio i ddarganfod y ffordd orau o farchnata i ymwelwyr posib.
helen.potts@tourism.wales.gov.uk

Partneriaeth

Partneriaeth yw'r gair sydd ar wefusau pawb ar y funud ac mae'n air pwysig mewn ardal fel hon.

Mae Partneriaeth Dwristiaeth Strategol Bannau Brycheiniog yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â thwristiaeth fel Awdurdodau Unedol, Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol a Chymdeithasau Twristiaeth. Mae gennym nod cyffredin ac mae'n bwysig ein bod yn cydweithio.

Dyddiau Hyfforddi

Mae yna hen ddigon o gyfleoedd i gyfarfod darparwyr llety a gweithgareddau eraill yn yr hydref a'r gaeaf a dysgu rhywbeth newydd.

- Os ydych erioed wedi meddwl pam mae ymwelwyr yn dod i Fannau Brycheiniog i feicio, dewch i'r diwrnod gweithgaredd ar 4 Mawrth 2004. Gallwch archwilio rhai o'r llwybrau gyda thywyswyr profiadol a darganfod mwy am fentrau beicio newydd Bannau Brycheiniog.
- Mae Prosiect Anticipation Twristiaeth Canolbarth Cymru, mewn partneriaeth â Brecon Action, yn cynnig gweithdai Cynllunio Mewnol ac Addurno Ffenestri sy'n llawn syniadau deniadol a chyffrous.

I gael gwybod mwy am unrhyw un o'r gweithdai hyn, gweler "Dyddiadau i'r Dyddiadur" a ffoniwch y rhif ffôn perthnasol.

Cynllun Graddio'r Bwrdd Croeso

Ydych chi am ddysgu rhagor am drefn raddio Bwrdd Croeso Cymru?
Ydych chi am wybod sut y gall graddio gynorthwyo eich busnes chi?

Os mai'r ateb i'r cwestiynau hyn yw YDW, cysylltwch â Wenda Thomas yn y Bwrdd Croeso ar (07919) 210834 neu e-bostiwch: wenda.thomas@tourism.gov.uk am sgwrs anffurfiol neu i drefnu apwyntiad.

Cynllun Grant Cyfalaf Twristiaeth Gymunedol Cyngor Sir Powys

Menter newydd i gefnogi prosiectau hyd at uchafswm o £10,000 i grwpiau cymunedol yn ardal Cyngor Sir Powys. Gall hyd at 75% o gyfanswm cost prosiectau gael eu dosbarthu rhwng grwpiau cymunedol.

Felly os oes gan eich cymuned syniad am sut i wella ac ehangu twristiaeth, cysylltwch â Swyddog Cynllun Grant Cyfalaf Twristiaeth Gymunedol ar 01874 612278.

Gwyliau Beicio

Bydd pum taith feicio newydd yn cael eu lansio'r gaeaf hwn, ar gyfer beicwyr hamdden ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd pob taith yn dilyn lonydd tawel cefn gwlad ac yn amrywio rhwng 16 a 52 o filltiroedd!

Caiff llyfryn newydd ei gyhoeddi cyn bo hir i gyd-fynd â'r teithiau, a bydd yn ddelfrydol i ddarparwyr llety. Bydd Bwrdd Croeso Cymru yn hyrwyddo'r teithiau mewn cylchgronau beicio, gwnewch yn siwr fod eich busnes yn ymddangos ar y wefan; www.visitwales.com.
Os nad yw, dewch i un o'r dyddiau hyfforddi am ddim neu ffoniwch 08708 300301.

Cerdded

£550 miliwn yw gwerth cerdded i Gymru. Mae bron 50% o ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn dod i gerdded.

Mae ystadegau fel hyn yn dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod ein cynnyrch twristiaeth cerdded a'r ffordd y caiff ei farchnata yn gywir. Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'n fwriad gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddatblygu Strategaeth Twristiaeth Cerdded. Os ydych am gyfrannu at hyn, rhowch wybod i ni.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

Mae trafnidiaeth yn un o'r materion hynny sy'n destun pryder cyson. Mae pobl a chymunedau lleol yn bryderus dros ben ynglŷn ag effaith ymwelwyr a'u ceir ar ansawdd eu bywydau. Mae eraill yn poeni am yr effaith ar yr amgylchedd byd-eang. Mae llawer yn cadw draw oherwydd nad oes ganddynt gar.
Ni all Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddatrys yr holl broblemau bob amser ond mae ganddo ran i'w chwarae, a cheisia ragweld a datrys problemau.

- Mae Bws y Bannau yn dod â phobl o 6 ardal drefol i'r Parc ar Suliau'r haf a Gwyliau Banc. Trwy'r orsaf fysiau yn Aberhonddu, gall pobl gyrraedd cefn gwlad ac atyniadau o bob math. Mae llyfryn am lwybrau cerdded Bws y Bannau ar gael nawr, yn rhad ac am ddim.
- Mae Bws Clawdd Offa yn cyfarfod â Bws y Bannau yn y Gelli Gandryll, ac yna â ar hyd Cwm Llanddewi Nant Hodni, gan ddychwelyd ochr draw i'r mynyddoedd yn Lloegr. Mae cerdded ar hyd llwybr Clawdd Offa yn hawdd os gallwch ddal y bws yn ôl o'r dafarn.
- Er mwyn cael syniad sut i fwynhau'r Parc heb gar, mae Canllaw Teithio Cyhoeddus y Parc Cenedlaethol ar gael nawr.

Gŵyl Ymchwil ac Antur

31 Hydref - 2 Tachwedd

Daw rhai o brif archwilwyr ac anturwyr y byd at ei gilydd i ddathlu anturio ar fynyddoedd, afonydd, ogofâu, moroedd, anialwch a'r pegynau yng Ngŵyl Ymchwil ac Antur Aberhonddu am y tro cyntaf erioed.
Bydd yr ŵyl yn cynnwys siaradwyr gwadd rhyngwladol yn cyflwyno sgyrsiau, darlithoedd a ffilmiau ar rai o orchestion pennaf y byd. Bydd yna arddangosfeydd, gweithdai, chwaraeon ac adloniant.
Am fanylion pellach ffoniwch 01874 676489 neu cewch i www.breconfestival.co.uk

Beicio Mynydd

Erbyn gwanwyn 2004, y gobaith yw y bydd arwyddion wedi eu gosod ar hyd at 15 llwybr newydd ac y byddant yn cael eu hyrwyddo yn yr ardaloedd canlynol:

- **Crug Hywel**
- **Tal-y-bont ar Wysg**
- **Talgarth**
- **Pontsenni**
- **Aberhonddu**

Bydd y llwybrau hyn ar gyfer beicwyr mynydd dibrofiad a rhai â gallu cymedrol.
Bydd pecyn llwybrau newydd a deniadol ar werth. Mae'r prosiect yn ddibynnol ar gyllid gan Adfywio – mwy yn y man!